



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 Rhif 2302 (Cy.227)

2002 No. 2302 (W.227)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

**Gorchymyn Adnabod a Symud
Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro)
(Cymru) (Rhif 2) 2002**

**The Sheep and Goats Identification
and Movement (Interim Measures)
(Wales) (No. 2) Order 2002**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig ac mae'n dirymu ac yn ailddeddfu (gyda rhai diwygiadau) Orchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002 (O.S. 2002/1357 (Cy.133)). Mae'n rhoi ar waith y darpariaethau sy'n ymwneud â defaid a geifr yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 92/102/EEC ar adnabod a chofrestru anifeiliaid (OJ Rhif L355, 5.12.92, t.32) ac yn darparu mesurau dros dro sy'n ymwneud â rheoli clefydau ar gyfer y cyfnod o 6 Medi 2002 hyd at 1 Chwefror 2003.

This Order applies only to Wales and revokes and re-enacts (subject to some amendment) the Sheep and Goats Identification and Movement (Interim Measures) (Wales) Order 2002 (S.I. 2002/1357 (W.133)). It implements the provisions relating to sheep and goats of the Council Directive 92/102/EEC on the identification and registration of animals (OJ No. L355, 5.12.92, p.32) and provides interim disease control-related measures for the period from 6th September 2002 to 1st February 2003.

Mae'r Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n cadw defaid neu eifr hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol (erthygl 3) a chadw cofnodion o symudiadau defaid a geifr a manylion eraill amdanynt (erthyglau 4 a 5).

The Order requires a person keeping sheep or goats to notify the National Assembly (article 3) and to keep records of the movements and other details of sheep and goats (articles 4 and 5).

Mae erthygl 7 yn ei gwneud yn ofynnol i farcio defaid a geifr a anwyd yng Nghymru â Marc Tarddiad ac mae erthygl 8 yn gwahardd symud yr anifeiliaid o'u daliad geni heb Farc Tarddiad. Mae Erthygl 9 yn gwahardd amryw symudiadau cyffredinol defaid neu eifr oni bai eu bod wedi'u marcio â marciau adnabod penodedig.

Article 7 requires sheep and goats born in Wales to be marked with an Origin Mark and article 8 prohibits moving the animals from their holding of birth without an Origin Mark. Article 9 prohibits various general movements of sheep or goats unless they are marked with specified identification marks.

Mae erthygl 10 yn darparu ar gyfer doddi uchafswm o 3 marc adnabod ar ddafad neu afr ran amlaf. Mae erthygl 11 yn ei gwneud yn ofynnol i ddafad neu afr sydd wedi'i mewnfario o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd gael ei marcio â Marc F o fewn 30 diwrnod.

Article 10 provides for a maximum of 3 identification marks to be applied to a sheep or goat in most cases. Article 11 requires a sheep or goat imported from outside the European Union to be marked with an F Mark within 30 days.

Mae erthygl 12 yn darparu bod dogfen sy'n cynnwys gwybodaeth benodedig yn cyd-fynd â defaid neu eifr pan fyddant yn cael eu symud, ac eithrio o dan amgylchiadau penodol.

Mae erthyglau 13 i 15 yn darparu ar gyfer gwaredu, amnewid ac ychwanegu tagiau clust a thatws, ac yn gwahardd eu difwyno. Mae erthygl 16 yn ei gwneud yn ofynnol i ddangos cofnodion i arolygydd ac mae erthygl 17 yn nodi darpariaethau mewn perthynas â marchnadoedd. Mae erthygl 18 yn darparu bod awdurdodau lleol yn gorfodi darpariaethau'r Gorchymyn hwn.

Mae torri unrhyw un o ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn yn dramgwydd o dan Adran 73 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 ac ar ôl collfarn gellir cosbi â dirwy.

Y prif newidiadau ers y Gorchymyn blaenorol yw -

- (a) diwygio'r dyddiad y mae effaith y Gorchymyn yn darfod (o 1 Rhagfyr 2002 i 1 Chwefror 2003) (erthygl 1);
- (b) diwygio'r diffiniad o "canolfan gasglu" ("*collecting centre*") er mwyn ei gysoni â darnau cysylltiedig eraill o ddeddfwriaeth (erthygl 2);
- (c) cynyddu uchafswm y tagiau y caniateir eu dodi ar anifail (erthygl 10);
- (ch) gosod gofyniad ar geidwaid sy'n derbyn anifeiliaid newydd i hysbysu hynny i'r awdurdod lleol (erthygl 12); a
- (d) gosod gofyniad ar geidwaid anifeiliaid i amnewid marciau S a gollwyd ar yr amod bod manylion rhai gwreiddiol yn hysbys i'r ceidwad (erthygl 13).

Nid oes arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi ar gyfer y Gorchymyn hwn.

Article 12 provides for a document containing specified information to accompany sheep or goats when they are moved, except in certain circumstances.

Articles 13 to 15 provide for the removal, replacement and addition of the eartags and tattoos, and prohibits their defacement. Article 16 requires production of records to an inspector and article 17 sets out provisions in respect of markets. Article 18 provides for local authorities to enforce the provisions of this Order.

Breach of any provision of this Order is an offence under Section 73 of the Animal Health Act 1981 and is punishable on conviction with a fine.

The main changes from the previous Order are -

- (a) to amend the date that the Order ceases to have effect (from 1st December 2002 to 1st February 2003) (Article 1);
- (b) to amend the definition of "collecting centre" so as to bring it into line with other related legislation (article 2);
- (c) to increase the maximum number of tags that can be applied to an animal (article 10);
- (d) to place a requirement on keepers that receive new animals to notify this fact to the local authority (article 12); and
- (e) to place a requirement on keepers of animals to replace lost S Marks provided the detail of the original is known to the keeper (article 13).

A regulatory appraisal has not been prepared for this Order.

2002 Rhif 2302 (Cy.227)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

**Gorchymyn Adnabod a Symud
Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro)
(Cymru) (Rhif 2) 2002**

Wedi'i wneud am 11:30a.m. ar 5 Medi 2002

Yn dod i rym 6 Medi 2002

TREFN YR ERTHYGLAU

Erthygl

1. Teitl, cymhwyso, cychwyn a darfod
2. Dehongli
3. Hysbysu ynglŷn â daliadau lle mae defaid neu eifr yn cael eu cadw
4. Cofnodion defaid
5. Cofnodion geifr
6. Marciau
7. Dodi Marc Tarddiad
8. Symudiad o'r daliad geni
9. Symudiadau yn gyffredinol
10. Uchafswm y marciau
11. Marcio anifeiliaid o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd
12. Dogfennau symud
13. Tynnu tagiau clust a dileu tatŵs ac amnewid y naill a'r llall
14. Dodi tagiau clust a thatŵs
15. Newid tagiau clust a thatŵs
16. Dangos cofnodion a dogfennau
17. Marchnadoedd
18. Gorfodi
19. Dirymu Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002

2002 No. 2302 (W.227)

ANIMALS, WALES

ANIMAL HEALTH

**The Sheep and Goats Identification
and Movement (Interim Measures)
(Wales) (No. 2) Order 2002**

Made at 11:30a.m. on 5th September 2002

Coming into force 6th September 2002

ARRANGEMENT OF ARTICLES

Article

1. Title, application, commencement and cessation
2. Interpretation
3. Notification of holdings where sheep or goats are kept
4. Sheep records
5. Goat records
6. Marks
7. Applying Origin mark
8. Movement from holding of birth
9. Movements generally
10. Maximum number of marks
11. Marking animals from outside the European Union
12. Movement documents
13. Removal and replacement of eartags and tattoos
14. Application of eartags and tattoos
15. Alteration of eartags and tattoos
16. Production of records and documents
17. Markets
18. Enforcement
19. Revocation of the Sheep and Goats Identification and Movement (Interim Measures) (Wales) Order 2002

Yr Atodlen

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, gan weithredu ar y cyd wrth ymarfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1 ac 8(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(a), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Teitl, cymhwyso, cychwyn a darfod

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002 ac mae'n gymwys i Gymru.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Medi 2002 a bydd ei effaith yn darfod ar 1 Chwefror 2003.

Dehongli

2.-(1) Yn y Gorchymyn hwn -

ystyr "canolfan gasglu" ("*collecting centre*") yw safle sy'n cael ei ddefnyddio fel canolfan hanner-ffordd ar gyfer derbyn anifeiliaid y bwriedir eu symud i rywle arall ac mae'n cynnwys unrhyw le a ddefnyddir, boed fel marchnad neu fel arall, ar gyfer gwerthu neu fasnachu anifeiliaid ond dim ond os bwriedir i'r anifeiliaid sy'n cael eu gwerthu neu eu masnachu gael eu cigydda ar unwaith wedi hynny;

ystyr "canolfan gynnull" ("*assembly centre*") yw canolfan gynnull a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â rheoliad 12(2) o Reoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Lloegr a Chymru) 2000(b);

ystyr "ceidwad" ("*keeper*") yw unrhyw berson sydd â gofal a rheolaeth dros ddefaid neu eifr, hyd yn oed dros dro ond heb gynnwys unrhyw berson sy'n geidwad ond am ei fod yn cludo'r anifeiliaid;

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

(a) 1981 p.22 *Gweler* adran 86(1) i gael y diffiniadau o "the Ministers". Mewn perthynas â Chymru, trosglwyddwyd pwerau "the Ministers" i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac i'r graddau yr oedd y pwerau hynny yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban, fe'u trosglwyddwyd i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999 (O.S. 1999/3141). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd wedi hynny i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794).

(b) O.S. 2000/1673; y diwygiad perthnasol yw Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Lloegr a Chymru) (Diwygio) (Cymru) 2002 (O.S. 2002/430 (Cy.52)).

Schedule

The National Assembly for Wales and the Secretary of State, acting jointly in exercise of the powers conferred on them by sections 1 and 8(1) of the Animal Health Act 1981(a), make the following Order:

Title, application, commencement and cessation

1.-(1) This Order may be cited as the Sheep and Goats Identification and Movement (Interim Measures) (Wales) (No.2) Order 2002 and applies to Wales.

(2) This Order comes into force on 6th September 2002 and shall cease to have effect on 1st February 2003.

Interpretation

2.-(1) In this Order -

"assembly centre" ("*canolfan gynnull*") means an assembly centre approved by the National Assembly for Wales in accordance with regulation 12(2) of the Animals and Animal Products (Import and Export) (England and Wales) Regulations 2000 (b);

"collecting centre" ("*canolfan gasglu*") means premises used for the intermediate reception of animals intended to be moved elsewhere and includes any place used, whether as a market or otherwise, for the sale or trading of animals but only where the animals being sold or traded are intended for immediate slaughter thereafter;

"CPH number" ("*rhif daliad*") means the farm holding number assigned from time to time to any premises or part of any premises by the National Assembly;

"flockmark" ("*marc diadell*") means the mark allocated to a flock of sheep by the National Assembly;

"goat" ("*gafr*") means a live goat;

"herdmark" ("*marc gyr*") means the mark

(a) 1981 c.22 *See* section 86(1) for the definitions of "the Ministers". In relation to Wales, the powers of "the Ministers" so far as exercisable by the Secretary of State for Wales were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and in so far as such powers were exercisable by the Secretary of State for Scotland, they were transferred to the Minister of Agriculture, Fisheries and Food by the Transfer of Functions (Agriculture and Food) Order 1999 (S.I. 1999/3141). The functions of the Minister of Agriculture, Fisheries and Food were subsequently transferred to the Secretary of State by the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food (Dissolution) Order 2002 (S.I. 2002/794).

(b) S.I. 2000/1673; relevant amendment is the Animals and Animal Products (Import and Export) (England and Wales) (Amendment) (Wales) Regulations 2002 (S.I. 2002/430 (W.52)).

ystyr "dafad" ("*sheep*") yw dafad fyw;

ystyr "daliad" ("*holding*") yw unrhyw sefydliad, adeiladwaith neu, yn achos fferm awyr agored, unrhyw le y mae defaid neu eifr yn cael eu dal, eu cadw neu eu trafod ynddo;

ystyr "dyddiad perthnasol" ("*relevant date*") yw'r dyddiad y mae'r Gorchymyn hwn yn dod i rym;

ystyr "gafr" ("*goat*") yw gafr fyw;

ystyr "Rheoliadau 2000" ("*the 2000 Regulations*") yw Rheoliadau Adnabod Defaid a Geifr (Cymru) 2000(a);

mae i "grŵp meddiannaeth unigol" ("*sole occupancy group*") yr ystyr a roddir iddo yn erthygl 2 o Orchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002(b);

mae i "lladd-dy" yr ystyr a roddir i "*slaughterhouse*" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Cig Ffres (Hylendid ac Archwilio) 1995(c);

ystyr "marc diadell" ("*flockmark*") yw'r marc a ddyrennir ar gyfer diadell o ddefaid gan y Cynulliad Cenedlaethol;

ystyr "marc dros dro" ("*temporary mark*") yw marc dros dro yn unol ag erthygl 6(11);

ystyr "marc gyr" ("*herdmark*") yw'r marc a ddyrennir ar gyfer gyr o eifr gan y Cynulliad Cenedlaethol;

ystyr "Marc X" ("*X Mark*") yw Marc X yn unol ag erthygl 6(1) a (8);

ystyr "rhif daliad" ("*CPH number*") yw'r rhif daliad fferm a neilltuir o dro i dro i unrhyw safle neu ran o unrhyw safle gan y Cynulliad Cenedlaethol;

ystyr "sioe" ("*show*") yw achlysur lle mae anifeiliaid yn cael eu harddangos ond nid yn unig er mwyn eu gwerthu;

ystyr "tir pori dros dro" ("*temporary grazing land*") yw tir y mae defaid yn cael eu symud iddo dros dro er mwyn cael eu bwydo neu eu pori ond nad yw'n rhan o'r daliad lle mae'r defaid yn cael eu cadw fel arfer; ac

ystyr "triniaeth filfeddygol" ("*veterinary treatment*") yw unrhyw driniaeth neu weithdrefn arall sy'n cael ei chyflawni gan filfeddyg neu o dan ei oruchwyliaeth.

allocated to a herd of goats by the National Assembly;

"holding" ("*daliad*") means any establishment, construction or, in the case of an open air farm, any place in which sheep or goats are held, kept or handled;

"keeper" ("*ceidwad*") means any person having care and control of sheep or goats, even on a temporary basis but not including any person who is only a keeper because he or she is transporting the animals;

"National Assembly" ("*Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales;

"relevant date" ("*dyddiad perthnasol*") means the date on which this Order comes into force;

"sheep" ("*dafad*") means a live sheep;

"the 2000 Regulations" ("*Rheoliadau 2000*") means the Sheep and Goats Identification (Wales) Regulations 2000(a);

"show" ("*sioe*") means an occasion at which animals are exhibited but not solely for the purpose of sale;

"slaughterhouse" ("*lladd-dy*") has the meaning given in regulation 2(1) of the Fresh Meat (Hygiene and Inspection) Regulations 1995(b);

"sole occupancy group" ("*grŵp meddiannaeth unigol*") has the meaning given in article 2 of the Disease Control (Interim Measures) (Wales) (No.2) Order 2002(c);

"temporary grazing land" ("*tir pori dros dro*") means land to which sheep are moved for a temporary period for the purpose of being fed or pastured but which is not part of the holding where the sheep are usually kept;

"temporary mark" ("*marc dros dro*") means a temporary mark in accordance with article 6(11);

"veterinary treatment" ("*triniaeth filfeddygol*") means any treatment or procedure carried on by or under the supervision of a veterinary surgeon; and

"X Mark" means an X Mark in accordance with article 6(1) and (8).

(a) O.S. 2000/2335 (Cy. 152) (a ddirymwyd bellach).

(b) O.S. 2002/2304 (Cy.229).

(c) O.S. 1995/539 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1995/3189, ac mewn perthynas â Chymru gan O.S. 2000/656, O.S. 2000/2257, O.S. 2001/1508, O.S. 2001/1740, O.S. 2001/1802, O.S. 2001/2627 ac O.S. 2002/129.

(a) S.I. 2000/2335 (W.152) (now revoked).

(b) S.I. 1995/539 as amended by S.I. 1995/3189, and in relation to Wales by S.I. 2000/656, S.I. 2000/2257, S.I. 2001/1508, S.I. 2001/1740, S.I. 2001/1802, S.I. 2001/2627 and S.I. 2002/129.

(c) S.I. 2002/2304 (W.229).

(2) Oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn ac mae unrhyw gyfeiriad mewn erthygl at baragraff neu is-baragraff â rhif neu lythyren yn gyfeiriad at y paragraff neu'r is-baragraff sy'n dwyn y rhif hwnnw neu'r llythyren honno yn yr erthygl honno.

Hysbysu ynglŷn â daliadau lle mae defaid neu eifr yn cael eu cadw

3.-(1) Os, ar ôl y dyddiad perthnasol, y daw person yn geidwad unrhyw ddafad neu afr ar ddaliad, rhaid iddo, o fewn un mis ar ôl iddo ddechrau cadw'r anifail hwnnw, hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol yn ysgrifenedig -

- (a) o gyfeiriad y daliad;
- (b) o enw a chyfeiriad meddiannydd y daliad; ac
- (c) a oes defaid neu eifr neu'r ddau yn cael eu cadw fel arfer ar y daliad.

(2) Rhaid i'r ceidwad hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol yn ysgrifenedig o unrhyw newid yn y manylion a bennir ym mharagraff (1) o fewn un mis i'r newid hwnnw ddiwydd.

(3) Ar ôl cael hysbysiad o dan y rheoliad hwn rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, yn ddarostyngedig i baragraff (4), ddyrannu mewn perthynas â'r daliad farc diadell yn achos defaid neu farc gyr yn achos geifr.

(4) Os lladd-dy neu farchnad yw'r daliad, dim ond pan fydd yn barnu ei bod yn briodol gwneud hynny y mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ddyrannu marc diadell neu farc gyr.

Cofnodion defaid

4.-(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n cadw defaid ar ddaliad (heblaw canolfan gynnull, marchnad, sioe, lladd-dy neu ganolfan gasglu) gofnodi, ar 31 Ionawr ym mhob blwyddyn neu cyn hynny, y nifer o ddefaid ar y daliad hwnnw ar 1 Ionawr yn y flwyddyn honno.

(2) O fewn 36 awr o symud dafad i ddaliad neu oddi arno, rhaid i'r ceidwad gofnodi -

- (a) dyddiad y symudiad;
- (b) cyfanswm y defaid a symudwyd;
- (c) un o'r marciau canlynol -
 - (i) y Marc S diweddaraf a ddodwyd ar y ddafad;
 - (ii) pan nad oes unrhyw Farc S, y Marc Tarddiad neu'r marc a wnaed o dan reoliad 7(5) o Reoliadau 2000;
 - (iii) pan nad oes unrhyw farc fel a grybwyllwyd yn is-baragraffau (c)(i) neu (ii), y Marc F neu'r Marc R; neu

(2) Unless the context otherwise requires, any reference in this Order to a numbered article is a reference to the article bearing that number in this Order and any reference in an article to a numbered or lettered paragraph or sub-paragraph is a reference to the paragraph or sub-paragraph bearing that number or letter in that article.

Notification of holdings where sheep or goats are kept

3.-(1) Where after the relevant date, a person becomes the keeper of any sheep or goat on a holding, he or she shall, within one month after he or she begins to keep that animal, notify the National Assembly in writing -

- (a) of the address of the holding;
- (b) of the name and address of the occupier of the holding; and
- (c) whether sheep or goats or both are usually kept on the holding.

(2) The keeper must notify the National Assembly in writing of any change in the particulars specified in paragraph (1) within one month of such change.

(3) On receiving notification under this regulation the National Assembly must, subject to paragraph (4), allocate in respect of the holding a flockmark in the case of sheep or a herdmark in the case of goats.

(4) Where the holding is a slaughterhouse or market, the National Assembly shall allocate a flockmark or herdmark only where it deems it appropriate to do so.

Sheep records

4.-(1) Any person keeping sheep on a holding (other than an assembly centre, market, show, slaughterhouse or collecting centre) must record, on or before 31st January in each year, the number of sheep on that holding on 1st January of that year.

(2) Within 36 hours of a sheep being moved onto or off a holding, the keeper must record -

- (a) the date of movement;
- (b) the total number of sheep moved;
- (c) one of the following marks -
 - (i) the latest S Mark applied to the sheep;
 - (ii) where there is no S Mark, the Origin Mark or the mark made under regulation 7(5) of the 2000 Regulations;
 - (iii) where there is no mark as mentioned in sub-paragraphs (c)(i) or (ii), the F Mark or R Mark; or

(iv) y rhif adnabod unigol ynghyd â'r marc a ddodwyd yr un pryd â'r rhif adnabod unigol;

(ch) yn achos dafad a symudwyd i'r daliad, cyfeiriad y daliad y daeth ohono; yn achos dafad sy'n cael ei symud oddi ar y daliad, cyfeiriad y daliad y mae'n mynd iddo;

(d) yn achos dafad a symudwyd o farchnad, y rhif lot a ddyranwyd yn y farchnad;

(dd) yn achos dafad a symudwyd i sioe neu ohoni, y rhif adnabod unigol ynghyd â'r marc a ddodwyd yr un pryd â'r rhif adnabod unigol;

(e) yn achos dafad sy'n cael ei symud i ganolfan gynnull, y rhif adnabod unigol (os oes mwy nag un, y rhif adnabod unigol diweddaraf a ddodwyd arni);

(f) yn achos dafad sy'n cael ei symud i gyrchfan y tu allan i Brydain Fawr, un o'r canlynol -

(i) Marc Tarddiad sy'n cynnwys y llythrennau "UK", a'r rhif adnabod unigol,

(ii) Marc F sy'n cynnwys y llythrennau "UK", a'r rhif adnabod unigol, neu

(iii) Marc X a'r rhif adnabod unigol; ac

(ff) yn achos hwrdd sydd wedi'i nodi, wedi'i farcio neu wedi'i dagio â rhif adnabod unigol at ddibenion erthygl 3(2)(b)(xviii), 3(3)(ch), 3(3)(e) neu 3(3)(f) o Orchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002, y rhif adnabod unigol hwnnw ynghyd â'r marc a ddodwyd yr un pryd â'r rhif hwnnw.

(3) Ni fydd paragraff (2)(c) yn gymwys yn achos dafad -

(a) a symudwyd yn uniongyrchol i ladd-dy;

(b) a symudwyd yn uniongyrchol i farchnad er mwyn ei gwerthu i'w chigydda;

(c) a symudwyd i ganolfan gasglu cyn cael ei symud i ladd-dy; neu

(ch) a ddychwelwyd yn uniongyrchol i ddaliad o farchnad yr oedd wedi'i hanfon iddi er mwyn ei gwerthu i'w chigydda;

ar yr amod bod y ceidwad yn cofnodi'r marc dros dro a ddodwyd ar y dafad.

(4) Yn achos dafad sy'n cael ei gwerthu heb gael ei symud i ddaliad neu oddi arno, rhaid i'r gwerthwr gofnodi, o fewn 36 awr o'r gwerthiant -

(a) dyddiad y gwerthiant;

(b) y nifer o ddefaid a werthwyd; ac

(iv) the individual identification number together with the mark which was applied at the same time as the individual identification number;

(d) in the case of a sheep moved onto the holding, the address of the holding from which it came; in the case of a sheep being moved off the holding, the address of the holding to which it is going;

(e) in the case of sheep moved from a market, the lot number allocated at the market;

(f) in the case of sheep moved to or from a show, the individual identification number together with the mark which was applied at the same time as the individual identification number;

(g) in the case of a sheep being moved to an assembly centre, the individual identification number (if more than one, the latest individual identification number applied to it);

(h) in the case of sheep being moved to a destination outside Great Britain, one of the following -

(i) an Origin Mark which includes the letters "UK", and the individual identification number,

(ii) an F Mark which includes the letters "UK", and the individual identification number, or

(iii) an X Mark and the individual identification number; and

(i) in the case of a ram that is identified, marked or tagged with an individual identification number for the purposes of article 3(2)(b)(xviii), 3(3)(d), 3(3)(g) or 3(3)(h) of the Disease Control (Interim Measures) (Wales) (No.2) Order 2002, that individual identification number together with the mark which was applied at the same time as that number.

(3) Paragraph (2)(c) shall not apply in the case of a sheep -

(a) moved direct to a slaughterhouse;

(b) moved direct to a market for the purpose of sale for slaughter;

(c) moved to a collecting centre before being moved to a slaughterhouse; or

(d) returned direct to a holding from a market to which it had been sent for the purpose of sale for slaughter;

provided the keeper records the temporary mark applied to the sheep.

(4) In the case of a sheep being sold without being moved onto or off a holding, the vendor must record, within 36 hours of the sale -

(a) the date of the sale;

(b) the number of sheep sold; and

(c) enw a chyfeiriad y prynwr.

(5) Yn achos dafad sydd wedi'i marcio yn unol ag erthygl 11 neu sydd wedi'i hailfarcio yn unol ag erthygl 13(2)(b) neu (c), rhaid i'r ceidwad, o fewn 36 awr o farcio neu ailfarcio'r dafad (yn ôl fel y digwydd), gofnodi'r marc diadell defaid newydd a'r un blaenorol, os yw'n hysbys.

(6) Pan fydd ceidwad yn marcio dafad â Marc X, rhaid iddo wneud y canlynol o fewn 36 awr -

- (a) os yw'r Marc X yn cael ei ddodi mewn canolfan gynnull, cofnodi'r Marc X a'r rhif adnabod unigol sy'n cael ei ddodi yr un pryd â'r Marc X, a'i groesgyfeirio â'r marc sydd wedi'i gofnodi o dan baragraff (2)(c) ac â'r rhif adnabod unigol sydd wedi'i gofnodi o dan baragraff (2)(e); a
- (b) os yw'r Marc X yn cael ei ddodi ar ddaliad heblaw canolfan gynnull, cofnodi'r Marc X a'r rhif adnabod unigol sy'n cael ei ddodi yr un pryd â'r Marc X, a'i groesgyfeirio â'r marc sydd wedi'i gofnodi o dan baragraff (2)(c);

(7) Rhaid i'r person sy'n gwneud cofnod o dan yr erthygl hon gadw'r cofnod am gyfnod o chwe mlynedd.

Cofnodion geifr

5.-(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n cadw gafr ar ddaliad (heblaw canolfan gynnull, marchnad, sioe, lladd-dy neu ganolfan gasglu) gofnodi, ar 31 Ionawr ym mhob blwyddyn neu cyn hynny, y nifer o eifr ar y daliad hwnnw ar 1 Ionawr yn y flwyddyn honno.

(2) O fewn 36 awr o symud gafr i ddaliad neu oddi arno, rhaid i'r ceidwad gofnodi -

- (a) dyddiad y symudiad;
- (b) cyfanswm y geifr a symudwyd;
- (c) un o'r marciau canlynol -
 - (i) y Marc S diweddaraf a ddodwyd ar yr afr;
 - (ii) pan nad oes unrhyw Farc S, y Marc Tarddiad neu'r marc a wnaed o dan reoliad 7(5) o Reoliadau 2000;
 - (iii) pan nad oes unrhyw farc a grybwyllir yn is-baragraffau (c)(i) neu (ii), y Marc F neu'r Marc R; neu
 - (iv) y rhif adnabod unigol ynghyd â'r marc a ddodwyd yr un pryd â'r rhif adnabod unigol;
- (ch) yn achos gafr a symudwyd i'r daliad, cyfeiriad y daliad y daeth ohono; yn achos gafr sy'n cael ei symud oddi ar y daliad, cyfeiriad y daliad y mae'n mynd iddo;
- (d) yn achos gafr a symudwyd o farchnad, y rhif lot a ddyranwyd yn y farchnad;

(c) the name and address of the purchaser.

(5) In the case of a sheep marked in accordance with article 11 or re-marked in accordance with article 13(2)(b) or (c), the keeper must, within 36 hours of marking or re-marking the sheep (as the case may be), record the new sheep flockmark and the previous one, if known.

(6) When a keeper marks a sheep with an X Mark, he or she shall within 36 hours -

- (a) where the X Mark is applied at an assembly centre, make a record of the X Mark and the individual identification number applied at the same time as the X Mark, cross-referenced with the mark which has been recorded under paragraph (2)(c) and with the individual identification number recorded under paragraph (2)(g); and
- (b) where the X Mark is applied at a holding other than an assembly centre, make a record of the X Mark and the individual identification number applied at the same time as the X Mark, cross-referenced with the mark which has been recorded under paragraph 2(c).

(7) The person making a record under this article must retain the record for a period of six years.

Goat records

5.-(1) Any person keeping a goat on a holding (other than an assembly centre, market, show, slaughterhouse or collecting centre) must record, on or before 31st January in each year, the number of goats on that holding on 1st January of that year.

(2) Within 36 hours of a goat being moved onto or off a holding, the keeper must record -

- (a) the date of movement;
- (b) the total number of goats moved;
- (c) one of the following marks -
 - (i) the latest S Mark applied to the goat;
 - (ii) where there is no S Mark, the Origin Mark or the mark made under regulation 7(5) of the 2000 Regulations;
 - (iii) where there is no mark as mentioned in sub-paragraphs (c)(i) or (ii), the F Mark or R Mark; or
 - (iv) the individual identification number together with the mark which was applied at the same time as the individual identification number;
- (d) in the case of a goat moved onto the holding, the address of the holding from which it came; in the case of a goat being moved off the holding, the address of the holding to which it is going;
- (e) in the case of goat moved from a market, the lot number allocated at the market;

- (dd) yn achos gafr a symudwyd i sioe neu ohoni, rhif adnabod unigol yr afr ynghyd â'r marc a ddodwyd yr un pryd â'r rhif adnabod unigol;
- (e) yn achos gafr sy'n cael ei symud i ganolfan gynnull, y rhif adnabod unigol (os oes mwy nag un, y rhif adnabod unigol diweddaraf a ddodwyd);
- (f) yn achos gafr sy'n cael ei symud i gyrchfan y tu allan i Brydain Fawr, un o'r canlynol -
 - (i) Marc Tarddiad sy'n cynnwys y llythrennau "UK", a'r rhif adnabod unigol,
 - (ii) Marc F sy'n cynnwys y llythrennau "UK", a'r rhif adnabod unigol, neu
 - (iii) Marc X a'r rhif adnabod unigol; ac
- (ff) yn achos gafr sy'n cael ei symud at ddibenion erthygl 3(2)(b)(xix) neu 3(3)(d) o Orchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002, y rhif adnabod unigol hwnnw ynghyd â'r marc a ddodwyd yr un pryd â'r rhif hwnnw.

(3) Ni fydd paragraff 2(c) yn gymwys yn achos gafr-

- (a) a symudwyd yn uniongyrchol i ladd-dy;
- (b) a symudwyd yn uniongyrchol i farchnad er mwyn ei gwerthu i'w chigydda;
- (c) a symudwyd i ganolfan gasglu cyn cael ei symud i ladd-dy; neu
- (ch) a ddychwelwyd yn uniongyrchol i ddaliad o farchnad yr oedd wedi'i hanfon iddi er mwyn ei gwerthu i'w chigydda;

ar yr amod bod y ceidwad yn cofnodi'r marc dros dro a ddodwyd ar yr afr.

(4) Yn achos gafr sy'n cael ei gwerthu heb gael ei symud i ddaliad neu oddi arno, rhaid i'r gwerthwr gofnodi, o fewn 36 awr o'r gwerthiant -

- (a) dyddiad y gwerthiant;
- (b) y nifer o eifr a werthwyd; ac
- (c) enw a chyfeiriad y prynwr.

(5) Yn achos gafr sydd wedi'i marcio yn unol ag erthygl 11 neu wedi'i hailfarcio yn unol ag erthygl 13(2)(b) neu (c), rhaid i'r ceidwad, o fewn 36 awr o farcio neu ailfarcio'r afr (yn ôl fel y digwydd), gofnodi'r marc gyf a'r un blaenorol, os yw'n hysbys.

(6) Pan fydd ceidwad yn marcio gafr â Marc X, rhaid iddo wneud y canlynol o fewn 36 awr -

- (a) os yw'r Marc X yn cael ei ddodi mewn

- (f) in the case of a goat moved to a show, the individual identification number of the goat together with the mark which was applied to it at the same time as the individual identification number;
- (g) in the case of a goat being moved to an assembly centre, the individual identification number (if more than one, the latest individual identification number applied to it);
- (h) in the case of a goat being moved to a destination outside Great Britain, one of the following marks applied to it-
 - (i) an Origin Mark which includes the letters "UK", and the individual identification number,
 - (ii) an F Mark which includes the letters "UK", and the individual identification number, or
 - (iii) an X Mark and the individual identification number; and
- (i) in the case of a goat being moved for the purposes of article 3(2)(b)(xix) or 3(3)(e) of the Disease Control (Interim Measures) (Wales) (No.2) Order 2002, that individual identification number together with the mark which was applied at the same time as that number.

(3) Paragraph 2(c) shall not apply in the case of a goat -

- (a) moved direct to a slaughterhouse;
- (b) moved direct to a market for the purpose of sale for slaughter;
- (c) moved to a collecting centre before being moved to a slaughterhouse; or
- (d) returned direct to a holding from a market to which it had been sent for the purpose of sale for slaughter;

provided the keeper records the temporary mark applied to the goat.

(4) In the case of a goat being sold without being moved onto or off a holding, the vendor must record, within 36 hours of the sale -

- (a) the date of sale;
- (b) the number of goats sold; and
- (c) the name and address of the purchaser.

(5) In the case of a goat marked in accordance with article 11 or re-marked in accordance with article 13(2)(b) or (c), the keeper must, within 36 hours of marking or re-marking the goat (as the case may be), record the new herdmark and the previous one, if known.

(6) When a keeper marks a goat with an X Mark, he or she shall within 36 hours -

- (a) where the X Mark is applied at an assembly

canolfan gasglu, cofnodi'r Marc X a'r rhif adnabod unigol sy'n cael ei ddodi yr un pryd â'r Marc X, a'i groesgyfeirio â'r marc sydd wedi'i gofnodi o dan baragraff (2)(c) ac â'r rhif adnabod unigol sydd wedi'i gofnodi o dan baragraff (2)(e); a

- (b) os yw'r Marc X yn cael ei ddodi ar ddaliad heblaw canolfan gynnull, cofnodi'r Marc X a'r rhif adnabod unigol sy'n cael ei ddodi yr un pryd â'r Marc X, a'i groesgyfeirio â'r marc sydd wedi'i gofnodi o dan baragraff (2)(c);

(7) Rhaid i'r person sy'n gwneud cofnod o dan yr erthygl hon gadw'r cofnod am gyfnod o chwe blynedd.

Marciau

6.-(1) Rhaid doddi marc sy'n cael ei ddodi o dan y Gorchymyn hwn (ac eithrio marc dros dro) ar glust yr anifail ar ffurf tag clust neu datw.

(2) Rhaid i **dag clust** fod -

- (a) wedi'i wneud naill ai o fetel neu o blastig neu o gyfuniad o fetel a phlastig;
- (b) yn un na ellir ymyrryd ag ef;
- (c) wedi'i brintio neu wedi'i stampio â'r llythrennau a'r rhifau sy'n ofynnol fel eu bod yn hawdd i'w darllen drwy gydol oes yr anifail;
- (ch) o fath nad yw'n ymyrryd â llesiant yr anifail; a
- (d) yn goch ei liw os yw'n dwyn Marc R ond nid mewn unrhyw achos arall.

(3) Ystyr **tatw** yw tatw sy'n ddarllenadwy drwy gydol oes yr anifail.

(4) **Marc F** -

- (a) pan fydd wedi'i farcio ar dag clust, yw'r llythrennau "UK" wedi'u dilyn gan farc diadell neu farc gyr y daliad y mewnforiwyd yr anifail iddo o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd, a'r marc hwnnw wedi'i ddilyn gan y llythyren "F";
- (b) pan fydd wedi'i farcio ar datw, yw marc diadell neu farc gyr y daliad hwnnw wedi'i ddilyn gan y llythyren "F".

(5) **Marc Tarddiad** -

- (a) pan fydd wedi'i farcio ar dag clust, yw'r llythrennau "UK" wedi'u dilyn gan farc diadell neu farc gyr daliad geni yr anifail;
- (b) pan fydd wedi'i farcio ar datw, marc diadell neu farc gyr daliad geni yr anifail.

(6) **Marc R** -

- (a) pan fydd wedi'i farcio ar dag clust, yw'r llythrennau "UK" wedi'u dilyn gan farc diadell neu farc gyr y daliad lle'r oedd yr anifail yn cael ei gadw pan gafodd ei farcio felly, a'r marc

centre, make a record of the X Mark and the individual identification number applied at the same time as the X Mark, cross-referenced with the mark which has been recorded under paragraph (2)(c) and with the individual identification number which has been recorded under paragraph (2)(g); and

- (b) where the X Mark is applied at a holding other than an assembly centre, make a record of the X Mark and the individual identification number applied at the same time as the X Mark, cross-referenced with the mark recorded under paragraph 2(c).

(7) The person making a record under this article must retain the record for a period of six years.

Marks

6.-(1) A mark applied under this Order (save for a temporary mark) shall be applied to the animal's ear by way of an eartag or tattoo.

(2) An **eartag** shall be -

- (a) made of either metal or plastic or a combination of metal and plastic;
- (b) tamper-proof;
- (c) printed or stamped with the required letters and numbers so that they are easy to read during the animal's lifetime;
- (d) such that it does not interfere with the well-being of the animal; and
- (e) red in colour when it bears an R Mark but not in any other case.

(3) A **tattoo** means a tattoo which is legible for the life of the animal.

(4) An **F Mark** is -

- (a) when marked on an eartag, the letters "UK" followed by the flockmark or herdmark of the holding to which the animal is imported from outside the European Union, followed by the letter "F";
- (b) when marked on a tattoo, the flockmark or herdmark of that holding followed by the letter "F".

(5) An **Origin Mark** is -

- (a) when marked on an eartag, the letters "UK" followed by the flockmark or herdmark of the animal's holding of birth;
- (b) when marked on a tattoo, the flockmark or herdmark of the animal's holding of birth.

(6) An **R Mark** is -

- (a) when marked on an eartag, the letters "UK" followed by the flockmark or herdmark of the holding where the animal was kept at the time it was so marked, followed by the letter "R";

hwennw wedi'i ddilyn gan y llythyren "R";

- (b) pan fydd wedi'i farcio ar datw, yw marc diadell neu farc gyr y daliad lle'r oedd yr anifail yn cael ei gadw pan gafodd ei farcio felly, a'r marc hwennw wedi'i ddilyn gan y llythyren "R";

(7) **Marc S** yw'r llythyren "S" wedi'i dilyn gan farc diadell neu farc gyr y daliad lle'r oedd yr anifail yn cael ei gadw pan gafodd ei farcio felly;

(8) **Marc X** yw'r llythrennau "UK" wedi'u dilyn gan farc diadell neu farc gyr y daliad y mae'r anifail i'w symud oddi yno i gyrchfan y tu allan i Brydain Fawr, a'r marc hwennw wedi'i ddilyn gan y llythyren "X".

(9) Rhif yw "**rhif adnabod unigol**" -

- (a) nad yw'n gymwys i unrhyw ddefaid eraill â'r un marc diadell nac i unrhyw afr arall â'r un marc gyr;
- (b) sy'n cael ei ddodi ar dag clust yr un pryd ag y mae Marc Tarddiad, Marc S, Marc F, Marc R neu Farc X yn cael ei ddodi, neu sy'n cael ei datwio ar un o glustiau'r anifail yr un pryd ag y mae Marc Tarddiad, Marc S, Marc F, Marc R neu Farc X yn cael ei datwio ar un o'i glustiau; ac
- (c) yn achos tag clust ac yn ddarostyngedig i baragraff (10), sy'n dilyn yn union ar ôl Marc Tarddiad, Marc S, Marc F, Marc R neu Farc X neu sy'n cael ei ddodi ar un ochr o'r tag clust y mae Marc Tarddiad, Marc S, Marc F, Marc R neu Farc X ar yr ochr arall iddo.

(10) Ni fydd rhif yn methu â bod yn "rhif adnabod unigol" os yr unig reswm am hynny yw na chafodd ei ddodi ar yr un tag clust â'r Marc Tarddiad, y Marc S, y Marc F, y Marc R neu'r Marc X -

- (a) os cafodd y rhif hwennw ei ddodi mewn rhan o Ynysoedd Prydain y tu allan i Gymru o dan y ddeddfwriaeth mewn grym yn y rhan honno; neu
- (b) os cafodd y rhif ei ddodi yng Nghymru cyn 11 Chwefror 2002.

(11) Rhaid i farc dros dro fod yn ddigon neilltuol i'w ddisgrifio yn y ddogfen sy'n ofynnol o dan erthygl 12 a rhaid iddo barhau i fod yn weladwy i'r llygad noeth nes i'r anifail gael ei gigydda neu nes iddo ddychwelyd i'r daliad yr oedd wedi'i anfon iddo er mwyn ei werthu i'w gigydda neu ddychwelyd i'r daliad o dir pori dros dro.

Dodi Marc Tarddiad

7.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i geidwad dafad neu afr a anwyd yng Nghymru ar y dyddiad perthnasol neu ar ôl hynny, neu sy'n dal ar ei daliad geni ar y dyddiad hwennw, ddodi Marc Tarddiad ar yr anifail hwennw cyn gynted â phosibl.

- (b) when marked on a tattoo, the flockmark or herdmark of the holding where the animal was kept at the time it was so marked, followed by the letter "R".

(7) An **S Mark** is the letter "S" followed by the flockmark or herdmark of the holding on which the animal was kept at the time it was so marked.

(8) An **X Mark** is the letters "UK" followed by the flockmark or herdmark of the holding from which the animal is to be moved to a destination outside Great Britain, followed by the letter "X".

(9) An "**individual identification number**" is a number which -

- (a) does not apply to any other sheep with the same flockmark or to any other goat with the same herdmark;
- (b) is applied to an eartag at the same time as an Origin Mark, S Mark, F Mark, R Mark or X Mark is applied, or is tattooed on one of the animal's ears at the same time that an Origin Mark, S Mark, F Mark, R Mark or X Mark is tattooed on one of its ears; and
- (c) in the case of an eartag and subject to paragraph (10), immediately follows an Origin Mark, S Mark, F Mark, R Mark or X Mark or is applied to one side of the eartag on the other side of which is an Origin Mark, S Mark, F Mark, R Mark or X Mark.

(10) A number shall not fail to be an "individual identification number" by reason only that it is not applied to the same eartag as the Origin Mark, S Mark, F Mark, R Mark or X Mark where -

- (a) the number was applied in part of the British Islands outside Wales under the legislation in force in that part; or
- (b) the number was applied in Wales before 11th February 2002.

(11) A temporary mark shall be sufficiently distinctive to be described in the document required under article 12 and shall remain visible to the naked eye until the animal is slaughtered or returns to the holding from which it had been sent to market for the purpose of sale for slaughter or returns to the holding from temporary grazing land.

Applying Origin Mark

7.-(1) Subject to paragraph (2), the keeper of a sheep or goat born in Wales on or after the relevant date, or which is still on its holding of birth on that date, must, as soon as possible apply an Origin Mark to that animal.

(2) Ni fydd paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas ag anifail a oedd, cyn y dyddiad perthnasol, wedi'i farcio yn unol â rheoliad 7 neu 14 o Reoliadau 2000 neu erthygl 7(1) o Orchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002 (a), fel y bo'n briodol.

Symudiad o'r daliad geni

8.-(1) Rhaid i berson beidio a symud dafad neu afr o'i ddaliad geni os na ddodir Marc Tarddiad arni.

(2) Ni fydd paragraff (1) yn gymwys yn achos -

- (a) gafr a symudwyd er mwyn ei datwio ac yna ei dychwelyd ar unwaith i'w daliad geni; neu
- (b) dafad neu afr a symudwyd er mwyn iddi gael triniaeth filfeddygol ac wedyn cael ei dychwelyd i'w daliad geni; neu
- (c) dafad neu afr a farciwyd cyn y dyddiad perthnasol yn unol â rheoliad 7(5) o Reoliadau 2000 neu erthygl 8(1) o Orchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002, fel y bo'n briodol.

Symudiadau yn gyffredinol

9.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) i (4) ac erthyglau 8 a 10, rhaid i berson beidio â symud dafad neu afr os nad yw wedi'i farcio ag un neu ragor o'r canlynol -

- (a) Marc Tarddiad a rhif adnabod unigol;
- (b) Marc S sy'n dangos marc diadell neu farc gyr y daliad y mae'r anifail yn cael ei symud ohono;
- (c) Marc S a rhif adnabod unigol;
- (ch) Marc F a rhif adnabod unigol;
- (d) Marc R yn dangos marc diadell neu farc gyr y daliad y mae'r anifail yn cael ei symud ohono; neu
- (dd) Marc R a rhif adnabod unigol.

(2) Ni fydd paragraff (1) yn gymwys -

- (a) os yw'r anifail yn cael ei farcio yn unol ag erthygl 13(2)(b) ac os yw'n cael ei symud o'r daliad y mae'r marc diadell neu'r marc gyr yn cyfeirio ato;
- (b) os yw'r anifail yn cael ei fewnforio o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd i ddaliad yng Nghymru;
- (c) os yw'r anifail yn cael ei symud o'r daliad y cafodd ei fewnforio iddo o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd ac yn cael ei farcio â Marc F;

(a) O.S. 2002/1357 (Cy.133).

(2) Paragraph (1) shall not apply in respect of an animal which, before the relevant date, was marked in accordance with regulation 7 or 14 of the 2000 Regulations or article 7(1) of the Sheep and Goats Identification and Movement (Interim Measures) (Wales) Order 2002(a), as appropriate.

Movement from holding of birth

8.-(1) A person must not move a sheep or goat from its holding of birth unless an Origin Mark is applied to it.

(2) Paragraph (1) shall not apply in the case of -

- (a) a goat moved for the purposes of being tattooed and then immediately returned to its holding of birth; or
- (b) a sheep or goat moved for the purpose of receiving veterinary treatment and then immediately returned to its holding of birth; or
- (c) a sheep or goat marked before the relevant date in accordance with regulation 7(5) of the 2000 Regulations or article 8(1) of the Sheep and Goats Identification and Movement (Interim Measures) (Wales) Order 2002, as appropriate.

Movements generally

9.-(1) Subject to paragraphs (2) to (4) and articles 8 and 10, a person must not move a sheep or goat unless it is marked with one or more of the following -

- (a) an Origin Mark and an individual identification number;
- (b) an S Mark indicating the flockmark or herdmark of the holding from which the animal is being moved;
- (c) an S Mark and an individual identification number;
- (d) an F Mark and an individual identification number;
- (e) an R Mark indicating the flockmark or herdmark of the holding from which the animal is being moved; or
- (f) an R Mark and an individual identification number.

(2) Paragraph (1) shall not apply where -

- (a) the animal is marked in accordance with article 13(2)(b) and is being moved from the holding to which the flockmark or herdmark refers;
- (b) the animal is being imported from outside the European Union to a holding in Wales;
- (c) the animal is being moved from the holding to which it was imported from outside the European Union and is marked with an F Mark;

(a) S.I. 2002/1357 (W.133).

- (ch) os yw'r anifail yn cael ei symud o Aelod-wladwriaeth arall i ddaliad yng Nghymru ac yn cael ei farcio yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 92/102/EEC(a) ar adnabod a chofrestru anifeiliaid;
- (d) os yw'r anifail yn cael ei symud o ran o Ynysoedd Prydain y tu allan i Gymru ac yn cael ei farcio yn unol â'r ddeddfwriaeth mewn grym yn y rhan honno o Ynysoedd Prydain;
- (dd) os oedd yr anifail cyn y dyddiad perthnasol wedi'i farcio yn unol naill ai -
 - (i) â rheoliad 7(5) o Reoliadau 2000 ac wedi'i farcio â rhif adnabod unigol;
 - (ii) ag erthygl 9(1) o Orchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) 2002, fel y bo'n briodol;
- (e) os yw'r anifail wedi'i farcio â marc dros dro ac -
 - (i) yn cael ei symud yn uniongyrchol i ladd-dy;
 - (ii) yn cael ei symud yn uniongyrchol i farchnad er mwyn ei werthu i'w gigydda;
 - (iii) yn cael ei symud i ganolfan gasglu cyn cael ei symud i ladd-dy; neu
 - (iv) yn dychwelyd yn uniongyrchol i ddaliad o farchnad (heblaw marchnad gigydda un-pwrpas) yr oedd wedi'i anfon iddi er mwyn ei werthu i'w gigydda;
- (f) os yw'r anifail yn cael ei symud at ddibenion triniaeth filfeddygol, dipio neu gneifio;
- (ff) os yw'r anifail yn cael ei symud rhwng safleoedd mewn grŵp meddiannaeth unigol;
- (g) os yw'r anifail yn dychwelyd i'r daliad y mae'n cael ei gadw arno o dir y mae gan y person hawl i bori drosto ar y cyd â pherchenogion eraill;
- (ng) os yw dafad wedi'i marcio â marc dros dro ac yn dychwelyd o dir pori dros dro i'r daliad yr oedd yn cael ei chadw arno yn union cyn cael ei symud i'r tir pori dros dro; neu
- (h) os yw'r anifail yn cael ei symud o farchnad, ar yr amod bod yr anifail wedi'i farcio yn unol â gofynion y Gorchymyn hwn pan gafodd ei symud i'r farchnad honno.

(3) Rhaid peidio â symud anifail i sioe nac ohoni oni bai ei fod wedi'i farcio â rhif adnabod unigol ynghyd â'r marc a ddodwyd arno yr un pryd â'r rhif adnabod unigol.

(4) Rhaid i berson beidio â symud anifail i ganolfan gynnull oni bai bod yr anifail wedi'i farcio yn unol ag un neu ragor o'r is-baragraffau canlynol:

- (d) the animal is being moved from another Member State to a holding in Wales and is marked in accordance with Council Directive 92/102/EEC(a) on the identification and registration of animals;
- (e) the animal is being moved from a part of the British Islands outside Wales and is marked in accordance with the legislation in force in that part of the British Islands;
- (f) before the relevant date the animal was marked in accordance with either -
 - (i) regulation 7(5) of the 2000 Regulations and with an individual identification number; or
 - (ii) article 9(1) of the Sheep and Goats Identification and Movement (Interim Measures) Order 2002, as appropriate;
- (g) the animal is marked with a temporary mark and is -
 - (i) being moved direct to a slaughterhouse,
 - (ii) being moved direct to a market for the purpose of sale for slaughter,
 - (iii) being moved to a collecting centre before being moved to a slaughterhouse; or
 - (iv) returning direct to a holding from a market (other than a dedicated slaughter market) to which it had been sent for the purpose of sale for slaughter;
- (h) the animal is being moved for the purposes of veterinary treatment, dipping or shearing;
- (i) the animal is being moved between premises in a sole occupancy group;
- (j) the animal is returning to the holding on which it is kept from land on which the person has a right of grazing in common with other proprietors;
- (k) a sheep is marked with a temporary mark and is returning from temporary grazing land to the holding on which it was kept immediately prior to being moved to the temporary grazing land; or
- (l) the animal is being moved from a market, provided the animal was marked in accordance with the requirements of this Order when it was moved on to that market.

(3) An animal must not be moved to or from a show unless it is marked with an individual identification number together with the mark which was applied at the same time as the individual identification number.

(4) (a) A person must not move an animal to an assembly centre unless the animal is marked in accordance with one or more of the following subparagraphs:

(a) OJ L355 o 5.12.92, t.0032.

(a) OJ L355 of 5.12.92, p.0032.

- (i) â Marc Tarddiad ac â rhif adnabod unigol;
- (ii) â Marc S ac â rhif adnabod unigol;
- (iii) â Marc F ac â rhif adnabod unigol;
- (iv) â marc a ddodwyd o dan Reoliadau 2000;

(b) Ni fydd paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas ag anifail sy'n cael ei symud yn unol ag is-baragraff (a).

(5) (a) Rhaid i berson beidio â symud anifail i safle y tu allan i Brydain Fawr oni bai ei fod wedi'i farcio yn unol ag un neu ragor o'r is-baragraffau canlynol -

- (i) â Marc Tarddiad sy'n cynnwys y llythrennau "UK", ac â rhif adnabod unigol;
- (ii) â Marc F sy'n cynnwys y llythrennau "UK", ac â rhif adnabod unigol; neu
- (iii) â Marc X ac â rhif adnabod unigol a ddodwyd yr un pryd â'r Marc X; a

(b) Ni fydd paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas ag anifail sy'n cael ei symud yn unol ag is-baragraff (a).

Uchafswm y marciau

10.-(1) Rhaid i berson beidio â doddi Marc S ar ddafad neu afr sydd eisoes yn dwyn tri marc yn cynnwys un neu ragor o'r marciau a ddisgrifir ym mharagraff 2.

- (2) Y marciau a ddisgrifir yn y paragraff hwn yw -
- (a) Marc Tarddiad, Marc S, Marc F neu Marc R;
 - (b) marc a ddodwyd o dan Reoliadau 2000;
 - (c) marc a ddodwyd o dan ddeddfwriaeth mewn grym mewn rhan o Ynysoedd Prydain y tu allan i Gymru;
 - (ch) marc a ddodwyd mewn Aelod-wladwriaeth arall yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 92/102/EEC; neu
 - (d) marc a ddodwyd o dan drwydded a roddwyd o dan erthygl 8 neu 31 o Orchymyn Clwy'r Traed a'r Genau 1983(a).

Marcio anifeiliad o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd

11. -(1) Os yw dafad neu afr yn cael ei mewnforio i ddaliad yng Nghymru o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd, o fewn deg diwrnod ar hugain ar ôl iddi gyrraedd y daliad hwnnw a beth bynnag cyn iddi gael ei symud o'r daliad hwnnw, rhaid i'r ceidwad yn y

(a) O.S. 1983/1950.

- (i) with an Origin Mark and with an individual identification number;
- (ii) with an S Mark and with an individual identification number;
- (iii) with an F Mark and with an individual identification number;
- (iv) with a mark applied under the 2000 Regulations;

(b) Paragraph (1) shall not apply in respect of an animal which is being moved in accordance with sub-paragraph (a).

(5) (a) A person must not move an animal to premises outside Great Britain unless it is marked in accordance with one or more of the following sub-paragraphs -

- (i) with an Origin Mark which includes the letters "UK", and with an individual identification number;
- (ii) with an F Mark which includes the letters "UK", and with an individual identification number; or
- (iii) with an X Mark and with an individual identification number that was applied at the same time as the X Mark; and

(b) Paragraph (1) shall not apply in respect of an animal which is being moved in accordance with sub-paragraph (a).

Maximum number of marks

10.-(1) A person must not apply an S Mark to a sheep or goat which already bears three marks consisting of one or more of the marks described in paragraph (2).

- (2) The marks described in this paragraph are -
- (a) an Origin Mark, an S Mark, an F Mark or an R Mark;
 - (b) a mark applied under the 2000 Regulations;
 - (c) a mark applied under legislation in force in a part of the British Islands outside Wales;
 - (d) a mark applied in another member State in accordance with Council Directive 92/102/EEC; or
 - (e) a mark applied under a licence given under article 8 or 31 of the Foot and Mouth Disease Order 1983(a).

Marking animals from outside the European Union

11.-(1) If a sheep or goat is imported to a holding in Wales from outside the European Union, within thirty days of arrival at that holding and in any event before it is moved from that holding, the keeper at that

(a) S.I. 1983/1950.

daliad hwnnw ei marcio â Marc F.

(2) Ni fydd paragraff (1) yn gymwys i anifail a fewnforiwyd yn uniongyrchol i ladd-dy, os yw'r anifail yn cael ei gigydda yno o fewn 5 diwrnod heb iddo fod wedi'i symud o'r lladd-dy.

Dogfennau symud

12. -(1) Rhaid i berson beidio â symud dafad na gafr oni bai bod dogfen sydd wedi'i llofnodi gan berchennog yr anifail neu ei asiant yn cyd-fynd â'r ddafad neu'r afr honno a bod y ddogfen yn pennu -

- (a) cyfeiriadau (gan gynnwys rhif daliad a chod post) y daliad y mae'r anifail yn cael ei symud ohono a'r daliad y mae'n cael ei symud iddo;
- (b) dyddiad y symudiad a chyfanswm yr anifeiliad sy'n cael eu symud;
- (c) y marc a ddisgrifir ym mharagraff (2);
- (ch) y rhif lot mewn perthynas ag anifail sy'n cael ei symud o farchnad; a
- (d) y rhif adnabod unigol mewn perthynas â'r anifail sy'n cael ei symud i ganolfan gynnull.

(2) Rhaid i'r ddogfen nodi hefyd

- (a) un o'r canlynol -
 - (i) y Marc S a ddodwyd ar yr anifail;
 - (ii) os nad oes unrhyw Marc S, y Marc Tarddiad, na'r marc a ddodwyd o dan reoliad 7(5) o Reoliadau 2000; neu
 - (iii) os nad oes unrhyw farc fel a grybwyllwyd yn is-baragraffau (i) neu (ii), y Marc F neu'r Marc R;
 - (iv) y rhif adnabod unigol ynghyd â'r marc a ddodwyd ar yr un pryd â'r rhif adnabod unigol;
- (b) unrhyw farc dros dro yn achos anifail -
 - (i) sy'n cael ei symud yn uniongyrchol i ladd-dy;
 - (ii) sy'n cael ei symud yn uniongyrchol i farchnad er mwyn ei werthu i'w gigydda;
 - (iii) sy'n cael ei symud i ganolfan gasglu cyn cael ei symud i ladd-dy;
 - (iv) sy'n dychwelyd yn uniongyrchol i ddaliad o farchnad yr oedd wedi'i anfon iddi er mwyn ei werthu i'w gigydda; neu
 - (v) sy'n dychwelyd o dir pori dros dro i'r daliad yr oedd yn cael ei gadw arno yn union cyn cael ei symud i'r tir pori dros dro;
- (c) os yw anifail yn cael ei symud i sioe neu ohoni, y rhif adnabod unigol ynghyd â'r Marc a ddodwyd yr un pryd â'r rhif adnabod unigol;

holding must mark it with an F Mark.

(2) Paragraph (1) shall not apply to an animal imported direct to a slaughterhouse, where the animal is slaughtered there within 5 days without having been moved from the slaughterhouse.

Movement documents

12.-(1) A person must not move a sheep or goat unless it is accompanied by a document, signed by the owner of the animal or his or her agent and which specifies -

- (a) the addresses (including the CPH number and the postcode) of the holdings from, and to which, the animal is being moved;
- (b) the date of movement and the total number of animals being moved;
- (c) the mark described in paragraph (2);
- (d) the lot number in respect of an animal which is being moved from market; and
- (e) the individual identification number in respect of the animal which is being moved to an assembly centre.

(2) The document shall also specify

- (a) one of the following -
 - (i) the S Mark applied to the animal;
 - (ii) where there is no S Mark, the Origin Mark, or the mark applied under regulation 7(5) of the 2000 Regulations; or
 - (iii) where there is no mark as mentioned in sub-paragraphs (i) or (ii), the F Mark or the R Mark;
 - (iv) the individual identification number together with the mark which was applied at the same time as the individual identification number;
- (b) any temporary mark in the case of an animal -
 - (i) being moved direct to a slaughterhouse,
 - (ii) being moved direct to a market for the purpose of sale for slaughter;
 - (iii) being moved to a collecting centre before being moved to a slaughterhouse;
 - (iv) returning direct to a holding from a market to which it had been sent for the purpose of sale for slaughter; or
 - (v) returning from temporary grazing land to the holding on which it was kept immediately prior to being moved to the temporary grazing land;
- (c) where an animal is being moved to or from a show, the individual identification number together with the mark which was applied at

neu

(ch) os yw hwrdd neu afr yn cael ei symud at ddibenion bridio yn unol ag erthygl 3(2)(b)(xviii), 3(2)(b)(xix), 3(3)(ch), 3(3)(d), 3(3)(e) neu 3(3)(f) o Orchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002, y rhif adnabod unigol ynghyd â'r Marc a ddodwyd yr un pryd â'r rhif adnabod.

(3) Ni fydd paragraff (1) yn gymwys yn achos anifail sy'n cael ei symud -

- (a) rhwng daliad ac unrhyw dir y mae hawl i bori ar y cyd â pherchenogion eraill yn arferadwy mewn perthynas ag ef;
- (b) at ddibenion triniaeth filfeddygol, dipio neu gneifio;
- (c) yn achos geifr, er mwyn eu tatwio; neu

(ch) o safle mewn grŵp meddiannaeth unigol i safle arall yn yr un grŵp;

(4) Pan fydd yr anifail yn cyrraedd ei gyrchfan, rhaid i'r person sy'n symud yr anifail roi'r ddogfen y cyfeirir ati ym mharagraff (1) uchod i'r ceidwad yn naliad y gyrchfan.

(5) Rhaid i'r ceidwad yn naliad y gyrchfan, o fewn tri diwrnod ar ôl i'r anifail gyrraedd yno, anfon copi o'r ddogfen y cyfeirir ati ym mharagraff (1) i'r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle mae'r daliad.

(6) Rhaid i geidwad anifail sy'n cael ei symud y tu allan i Brydain Fawr anfon copi o'r ddogfen y cyfeirir ati ym mharagraff (1) at yr Awdurdod Lleol ar gyfer yr ardal lle mae'r safle y mae'r anifail yn cael ei symud ohono.

Tynnu tagiau clust a dileu tatws ac amnewid y naill a'r llall

13. -(1) Ac eithrio o dan awdurdod un o swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol, ni chaiff neb dynnu nac amnewid tag clust na dileu nac amnewid tatw sydd wedi'i ddodi ar anifail yn unol â'r Gorchymyn hwn, Rheoliadau 2000, neu Reoliadau Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002, oni bai ei fod wedi mynd yn annarllenadwy neu yn achos tag clust, wedi'i dynnu at ddibenion lles neu wedi'i gollu.

(2) Pan fydd Marc Tarddiad, Marc F neu Farc R wedi mynd yn annarllenadwy, wedi'i dynnu at ddibenion lles neu wedi'i gollu, rhaid i'r ceidwad -

- (a) doddi Marc unfath;
- (b) doddi -

the same time as the individual identification number; or

(d) where a ram or goat is being moved for breeding purposes in accordance with article 3(2)(b)(xviii), 3(2)(b)(xix), 3(3)(d), 3(3)(e), 3(3)(g) or 3(3)(h) of the Disease Control (Interim Measures) (Wales) (No.2) Order 2002, the individual identification number together with the mark which was applied at the same time as the identification number.

(3) Paragraph (1) shall not apply in the case of an animal which is being moved -

- (a) between a holding and any land in respect of which a right of grazing in common with other proprietors is exercisable;
- (b) for the purposes of veterinary treatment, dipping or shearing;
- (c) in the case of goats, for the purpose of being tattooed; or
- (d) from premises in a sole occupancy group to other premises in the same group.

(4) When the animal arrives at its destination, the person moving the animal must give the document referred to in paragraph (1) above to the keeper at the holding of destination.

(5) The keeper at the holding of destination shall, within 3 days of the arrival of the animal there, send a copy of the document referred to in paragraph (1) to the local authority for the area in which the holding is situated.

(6) The keeper of an animal being moved outside Great Britain shall send a copy of the document referred to in paragraph (1) to the local authority for the area in which the premises from which the animal is being moved, are situated.

Removal and replacement of eartags and tattoos

13.-(1) Except under the authority of an officer of the National Assembly, a person may not remove or replace an eartag or a tattoo which has been applied to an animal in accordance with this Order, the 2000 Regulations, or the Sheep and Goats Identification and Movement (Interim Measures) (Wales) Regulations 2002, unless it has become illegible or in the case of an eartag, is removed for welfare purposes or is lost.

(2) When an Origin Mark, F Mark or R Mark has become illegible, is removed for welfare purposes or is lost, the keeper must -

- (a) apply an identical mark;
- (b) apply -

- (i) os Marc Tarddiad oedd y marc gwreiddiol, tag â'r llythrennau "UK" wedi'u dilyn â marc diadell neu farc gyr y daliad lle'r oedd yr anifail yn cael ei gadw neu datw â marc diadell neu farc gyr y daliad lle mae'r anifail yn cael ei gadw;
 - (ii) os Marc F oedd y marc gwreiddiol, tag â'r llythrennau "UK" wedi'u dilyn â marc diadell neu farc gyr y daliad lle mae'r anifail yn cael ei gadw a'r marc hwnnw wedi'i ddilyn â'r llythyren F neu datw â marc diadell neu farc gyr y daliad lle mae'r anifail yn cael ei gadw a'r marc hwnnw wedi'i ddilyn gan y llythyren F; neu
 - (iii) os Marc R oedd y marc gwreiddiol, Marc R newydd, a chroesgyfeirio'r marc newydd â'r marc gwreiddiol yn y cofnod sy'n cael ei gadw o dan erthygl 4 neu 5; neu
- (c) pan na ellir cyflawni'r camau yn is-baragraff (a) nac is-baragraff (b), doddi Marc R.

(3) Pan fydd Marc S wedi mynd yn annarllenadwy neu wedi'i gollu, rhaid i'r ceidwad, os yw'n gwybod y manylion (a bennir yn erthygl 6(7)) a oedd ar y marc hwnnw, roi marc unfath yn ei le.

(4) Ni fydd paragraff (2) a (3) yn gymwys yn achos anifail mewn marchnad neu ladd-dy.

(5) Ni chaiff neb anfon unrhyw ddafad neu afr y tu allan i Brydain Fawr os yw wedi'i farcio â thag clust neu datw yn diweddu gyda'r llythyren "R" sy'n dangos mai tag clust neu datw yn lle un arall ydyw.

Dodi tagiau clust a thatw

14. Ac eithrio at ddibenion cydymffurfio â gofynion y Gorchymyn hwn, ni chaiff neb ddodi tag clust neu datw sy'n dwyn marc diadell neu farc gyr ar ddafad neu afr, oni bai ei fod wedi'i awdurdodi gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Newid tagiau clust a thatw

15. Ni chaiff neb newid, dileu na difwyno'r wybodaeth ar dag clust neu datw sydd wedi'i ddodi ar ddafad neu afr o dan y Gorchymyn hwn.

Dangos cofnodion a dogfennau

16. Rhaid i unrhyw berson sydd â gofal dros unrhyw gofnod neu ddogfen y mae'n ofynnol eu cadw o dan y Gorchymyn hwn eu dangos i arolygydd os bydd yn gofyn amdanynt (neu, os ydynt yn cael eu cadw ar ffurf electronig, dangos allbrint ohonynt) a chaniatáu i gopiau gael eu gwneud ohonynt.

Marchnadoedd

17. -(1) Rhaid i weithredwr y farchnad sicrhau bod yr holl ddefaid a geifr sy'n bresennol yn y farchnad yn cael eu rhannu mewn grwpiau o un neu ragor o

- (i) where the original mark was an Origin Mark, a tag with the letters "UK" followed by the flockmark or herdmark of the holding where the animal is kept or a tattoo with the flockmark or herdmark of the holding where the animal is kept;
 - (ii) where the original mark was an F Mark, a tag with the letters "UK" followed by the flockmark or herdmark of the holding where the animal is kept followed by the letter F or a tattoo with the flockmark or herdmark of the holding where the animal is kept followed by the letter F; or
 - (iii) where the original mark was an R Mark, a new R Mark, and cross-reference the new mark with the original mark in the record kept under article 4 or 5; or
- (c) where the action in neither sub-paragraph (a) nor (b) can be carried out, apply an R Mark.

(3) When an S Mark has become illegible or is lost, the keeper shall, if he or she knows the details (specified in article 6(7)) that were on that mark, replace it with an identical mark.

(4) Paragraph (2) and (3) shall not apply in the case of an animal at a market or slaughterhouse.

(5) No person shall consign any sheep or goat outside Great Britain if it is marked with an eartag or tattoo ending with the letter "R" showing that it is a replacement eartag or tattoo.

Application of eartags and tattoos

14. Other than for the purpose of complying with the requirements of this Order, a person shall not apply an eartag or tattoo bearing a flockmark or herdmark to a sheep or goat unless authorised by the National Assembly.

Alteration of eartags and tattoos

15. A person shall not alter, obliterate or deface the information on an eartag or tattoo applied to a sheep or goat under this Order.

Production of records and documents

16. Any person in charge of any record or document required to be kept under this Order must produce it to an inspector on demand (or, if it is kept in electronic form, produce a printout of it) and allow a copy to be made.

Markets

17.-(1) The operator of the market shall ensure that all sheep and goats attending the market are divided into groups of one or more animals immediately upon their arrival there, and a lot number is allocated to each

anifeiliaid yn union ar ôl iddynt gyrraedd yno, a bod rhif lot yn cael ei ddyrannu i bob grŵp.

(2) Ni chaiff neb brynu na gwerthu dafad na gafr mewn marchnad oni fydd yn prynu hefyd yr holl anifeiliaid eraill yn y lot y mae'r dafad neu'r afr honno yn perthyn iddi.

(3) Rhaid i weithredwr marchnad sicrhau, cyn gynted ag y bydd dafad neu afr wedi'i gwerthu yn y farchnad, fod y ddogfen symud a ddisgrifir yn erthygl 12 yn cael ei llenwi.

(4) Ni chaiff neb symud dafad na gafr o farchnad ac eithrio i'r safle sydd wedi'i nodi yn y cofnod symud a gafodd ei llenwi yn unol â pharagraff (3) uchod.

(5) Rhaid i weithredwr y farchnad sicrhau mai ar y diwrnod y mae dafad neu afr yn cael ei symud o'r farchnad, ei fod yn anfon dogfen sydd o ran ei sylwedd ar y ffurf a nodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, a'r ddogfen honno yn pennu'r wybodaeth a ddisgrifir yn erthygl 12(1) a (2), i'r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle y lleolir y farchnad.

Gorfodi

18. Ac eithrio lle darperir yn bendant fel arall, mae darpariaethau'r Gorchymyn hwn i'w gweithredu a'u gorfodi gan yr awdurdod lleol.

Dirymu Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002

19. Dirymir Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

am 2:31pm ar 4 Medi 2002

Jane Davidson

Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

am 11:30am ar 5 Medi 2002

Whitty

Is-ysgrifennydd Seneddol

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

group.

(2) No person shall buy or sell a sheep or goat at a market unless he or she also buys all other animals in the lot to which that sheep or goat belongs.

(3) The operator of a market shall ensure that as soon as a sheep or goat has been sold at the market, the movement document described in article 12 is completed.

(4) No person shall move a sheep or goat from a market other than to the premises identified in the movement record completed in accordance with paragraph (3) above.

(5) The market operator shall ensure that on the day that a sheep or goat is moved from the market, he or she sends a document substantially in the form set out in the Schedule to this Order, specifying the information described in article 12(1) and (2) to the local authority for the area in which the market is situated.

Enforcement

18. Except where otherwise expressly provided, the provisions of this Order are to be executed and enforced by the local authority.

Revocation of the Sheep and Goats Identification and Movement (Interim Measures) (Wales) Order 2002

19. The Sheep and Goats Identification and Movement (Interim Measures) (Wales) Order 2002 is revoked.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales

at 2:31pm on 4th September 2002

Minister for Education and Lifelong Learning

at 11:30am on 5th September 2002

Parliamentary Under-Secretary of State

Department for Environment, Food and Rural Affairs

YR ATODLEN**THE SCHEDULE****HYSBYSU SYMUDIAD O FARCHNAD****NOTICE OF MOVEMENT FROM MARKET**

Enw'r gweithredwr marchnad sy'n anfon yr hybsysiad:

Name of market operator sending the notice:

.....

.....

Man ymadael: Rhif Daliad Cyfeiriad Cod post (safle'r farchnad y mae'r defaid neu'r geifr i gael eu symud ohono). Departure: CPH Number Address Postcode (of market premises from which sheep or goats are to be moved)	Cyrchfan: Rhif Daliad Cyfeiriad Cod post (y gyrchfan y mae'r defaid neu'r geifr i'w symud iddi) Destination: CPH Number Address Postcode (of place of destination to which sheep or goats are to be moved)	Dyddiad y symudiad Date of movement	Nifer y defaid neu'r geifr sydd i'w symud Number of sheep or goats to be moved	Marc adnabod yn unol ag erthygl 12(2) Identification mark in accordance with article 12(2)	Y rhif lot y gwerthwyd yr anifeiliaid odani yn y farchnad Lot number under which animals sold at market

OFFERYNNAU STATUDOL

2002 Rhif 2302 (Cy.227)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Adnabod a Symud
Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro)
(Cymru) (Rhif 2) 2002

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 No. 2302 (W.227)

ANIMALS, WALES

ANIMAL HEALTH

The Sheep and Goats Identification
and Movement (Interim Measures)
(Wales) (No. 2) Order 2002

© Hawlfraint y Goron 2002

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£3.50

W/152/09/02

ON

© Crown copyright 2002

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090572-5

